# Snapchat!

1. Dadansoddi Deialog:

Mae hi'n anodd dweud yn union beth sy'n mynd trwy feddwl rhywun wrth ddarllen neges ar ffôn. Weithiau mae'n rhaid darllen rhwng y llinellau i wybod beth yw'r ystyr go iawn. Gan ateb y cwestiynau isod i gyd, ceisiwch ddadansoddi'r ddeialog rhwng Betsan a Leah.

| | |
|---|---|
| 1 | Ydy'r ddwy'n ffrindiau da fel arfer? |
| 2 | Sut mae Leah yn gallu gweld bod Betsan yn ei hystafell wely? |
| 3 | Edrychwch ar neges 4. Ydych chi'n cael yr argraff nad yw Betsan eisiau siarad llawer gyda Leah? Os felly, pam? |
| 4 | Ydy Leah yn defnyddio Snapchat yn aml yn ystod y nos? Sawl cyfeiriad at Snapchat sydd yn y sgwrs? |
| 5 | Wrth edrych ar negeseuon 6 a 7, beth mae Leah yn ei weld ar Snap Maps? |
| 6 | Pam nad yw Betsan yn ateb? |
| 7 | Os yw Betsan ar *Ghost Mode*, pam? |
| 8 | Trafodwch ymateb Leah i neges 8. Wnaeth hi ymateb yn syth? Pam? Sut rydych chi'n meddwl mae Leah yn teimlo erbyn y pwynt yma? |
| 9 | Nid yw'n bosib gwybod yn iawn, ond meddyliwch pam nad yw Leah wedi mynd i'r ysgol ddydd Llun? |
| 10 | Ysgrifennwch neges gan Leah yn ymateb i neges olaf Betsan. Ceisiwch feddwl am o leiaf ddau ymateb gwahanol. |

2. Iaith

Mae gan bawb ffordd wahanol o ysgrifennu a sillafu wrth anfon negeseuon ar y ffôn. Mae’r rhan fwyaf yn ceisio darganfod o wneud geiriau’n fyrrach. Ar bapur arall neu ar y cyfrifiadur, ailysgrifennwch y negeseuon ond, y tro hwn, mewn iaith lawn, gywir.